Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
General Teaching Council for Wales

Datganiad Gwerthoedd ac Arfer Proffesiynol

Mae'r Datganiad Gwerthoedd ac Arfer Proffesiynol yn ceisio:

- gosod safonau clir ar gyfer yr ymddygiad ac arfer proffesiynol y dylai athrawon cofrestredig anelu atynt;
- bod yn ddogfen gefnogol fydd yn helpu athrawon yn eu gwaith bob dydd;
- helpu i gynnal a chodi safonau ymddygiad ac arfer;
- gwella delwedd gyhoeddus athrawon;
- dod ag addysgu i'r un lefel â phroffesiynau eraill;
- cynnig arweiniad i athrawon a chyflogwyr.

Mae'r Datganiad Gwerthoedd ac Arfer Proffesiynol yn adeiladu ar safonau Statws Athro Cymwys:

Egwyddorion Cyffredinol

Mae addysgu'n swydd bwysig ac anodd sy'n newid yn gyson. Mae athrawon cofrestredig yng Nghymru'n ymateb i'r newidiadau hyn ac maen nhw'n ymdrechu i ymddwyn gyda didwylledd a chymhwyso'u sgiliau a'u gwybodaeth i'r fantais eithaf yn eu gwaith proffesiynol. Nid oes un diffiniad penodol sy'n nodweddu athro effeithiol. Unigolion yw athrawon sy'n defnyddio amrediad o ddulliau i sicrhau llwyddiant. Mae ganddyn nhw rôl holl bwysig i addysgu disgyblion, gan ddylanwadu arnynt a'u meithrin i fod yn ddinasyddion cyfrifol fydd yn chwarae rhan lawn yn y gymdeithas leol, genedlaethol a rhyngwladol. Mae athrawon yn cydnabod bod angen i'r holl bartneriaid

ysgwyddo cydgyfrifoldeb ac ymrwymiad er mwyn cyflawni eu dyheadau a'u nodau cyffredin. Maen nhw'n ymroddedig i ddarparu cyfleon cyfartal i'w disgyblion, cydweithwyr a phobl eraill y byddan nhw'n dod i gysylltiad proffesiynol â nhw, gan gydnabod eu rhyw, eu cenedligrwydd, eu hoedran, eu crefydd, eu hanghenion arbennig, eu gogwydd rhywiol a'u cefndir ieithyddol.

Mae athrawon cofrestredig yn ymgyraedd at y nodweddion a'r arferion yma:

Addysgu a Dysgu

Mae athrawon yn anelu at gyrraedd y safonau proffesiynol uchaf drwy gynllunio a threfnu eu gwaith yn effeithiol. Maen nhw'n addysgu unigolion a grŵpiau o ddisgyblion yn y modd mwyaf effeithiol drwy ddefnyddio amrywiol ddulliau. Maen nhw'n cydnabod pwysigrwydd gosod targedau sy'n heriol ond eto'n sy'n realistig, ac esbonio'n glir wrth ddisgyblion yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth maen nhw'n eu casglu o ystod eang o asesiadau mewnol ac allanol disgyblion gan addasu profiadau dysgu ar sail anghenion a chynnydd unigolion.

Disgyblion

Mae athrawon yn deall yr amrywiaeth o anghenion dysgu sydd gan ddisgyblion ac yn darparu'r addysg orau bosib er mwyn iddynt ddatblygu eu potensial i'r eithaf, beth bynnag fo'u dyheadau unigol, eu hamgylchiadau personol a'u cefndir. Drwy wneud hyn mae athrawon yn defnyddio cyfuniad o nodweddion proffesiynol, yn dibynnu ar yr athro unigol a'r sefyllfa

benodol, i geisio ysgogi ac ysbrydoli disgyblion a sicrhau eu datblygiad deallusol a phersonol. Mae proffesiynoldeb yr athrawon yn sicrhau eu bod nhw'n adeiladu perthnas gyda disgyblion ar sail ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd.

Cydweithwyr

Mae athrawon yn cefnogi ac yn cydweithio ag athrawon eraill i gynnal perthynas waith broffesiynol ac effeithiol. Maen nhw'n rhannu eu safbwyntiau, eu profiadau a'u harbenigedd â'u cydweithwyr gan chwilio am a pharchu syniadau a gweledigaethau pobl eraill, er lles disgyblion. Maen nhw'n sylweddoli bod cyfrinachedd yn bwysig mewn rhai sefyllfaoedd.

Rhieni/Gwarcheidwaid

Mae athrawon yn parchu cefndir teuluol unigryw pob disgybl. Maen nhw'n cydnabod ei bod hi'n bwysig rhoi gwybodaeth ac egluro disgwyliadau wrth rieni/gwarcheidwaid, a meithrin perthynas bositif rhwng y cartref a'r ysgol. Mae athrawon yn ymdrechu i ennill cefnogaeth rhieni /gwarcheidwaid mewn materion sy'n ymwneud ag addysgu ac ymddygiad eu plant, ac yn ystyried eu safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau. Mae athrawon yn ymdrechu i hyrwyddo lle'r ysgol yn y gymuned.

Gweithwyr Proffesiynol Eraill

Mae athrawon yn cydnabod cyfraniad angenrheidiol gweithwyr proffesiynol eraill yn y broses addysgu. Pan fo hynny'n briodol, maen nhw'n cydweithio ag eraill yn y gweithlu ysgol ehangach ac yn darparu arweinyddiaeth iddynt, er lles y disgybl a'r ysgol.

Datblygiad Proffesiynol

Mae athrawon yn diweddaru eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau proffesiynol oc yn adfyfyrio ar au profiad. Maen nhw'n cydnabod eu hanghenion eu hunain ac yn anelu at gymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad proffesiynol parhaus, gan fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae athrawon yn cyfrannu i ddatblygiad ehangach yr ysgol a'r proffesiwn.